



---

Ydych chi'n gweithio mewn ysgol, iechyd neu ofal cymdeithasol?

---

Ydych chi eisiau dysgu rhywbeth newydd?

---

Neu a ydych chi'n awyddus i ddatblygu'ch gyrfa?

---

A fyddai

**Grant Cymhwyster o £200**

**o Gronfa Ddysgu Undebau Cymru  
(WULF)**

**UNSAIN Cymru yn helpu?**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

# Grantiau Cymhwyster *WULF UNSAIN* Cymru

**Ar gyfer y rheiny sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig staff cymorth mewn ysgolion a'r rhai sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.**

Rydym yn gwybod pa mor anodd yw gallu fforddio hyfforddiant i wella eich rhagolygon o gael swydd well oherwydd y cynnydd sylweddol mewn ffioedd cyrsiau, ynghyd â phenderfyniad llawer o gyflogwyr i atal cymorth ariannol ar gyfer datblygu gyrfa.

Er mwyn eich helpu i ddod ymlaen yn y gwaith a datblygu eich gyrfa, mae Prosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (*WULF*) UNSAIN Cymru yn falch o gynnig cyfle i'r rheiny sy'n gweithio yn y sectorau hyn i wneud cais am grant o **£200** tuag at eu cymhwyster.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithwyr sydd ag ychydig neu ddim cymwysterau wrth ddyrannu'r grantiau hyn.

Dyfernir grantiau bob chwarter mewn cyfarfod o Fwrdd Prosiect *WULF UNSAIN* Cymru ar sail meini prawf sy'n glir ac yn dryloyw.

## I Wneud Cais

Dylech argraffu, cwblhau, llofnodi a dychwelyd y ffurflen gais ar y dudalenn nesaf. Mae'r dyddiadau cau ar gyfer adolygu ceisiadau bob chwarter, fel a ganlyn:

1<sup>af</sup> Mawrth 2020

1<sup>af</sup> Mehefin 2020

1<sup>af</sup> Medi 2020

1<sup>af</sup> Rhagfyr 2020

**Dyfernir uchafswm o 10 grant bob chwarter.** Byddwn yn ystyried pob cais ar y dyddiad hwnnw fel y gellir gweithredu'r meini prawf ar gyfer y grant yn deg, a rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr beth yw'r canlyniad yn fuan iawn ar ôl y dyddiad hwnnw.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn ymateb gan gynnwys rhesymau dros y penderfyniad, p'un a yw'r penderfyniad yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Pan na fydd cais yn cael ei gymeradwyo, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig cymorth a'i gyfeirio at ffynonellau cyllid neu gyfleoedd dysgu eraill lle bynnag y bo modd gwneud hynny.

## **Yn ogystal â'r amodau y cyfeirir atynt uchod, mae'r canlynol hefyd yn berthnasol i dderbyn grant dysgu:**

- 1) Dim ond un grant dysgu ym mhob blwyddyn ariannol y gall pob aelod ei dderbyn (1<sup>af</sup> Ebrill - 31<sup>ain</sup> Mawrth), hyd at uchafswm o bedwar grant.
- 2) Cyflwynir grantiau yn ôl disgrisiwn Bwrdd Prosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (*WULF*) UNSAIN.
- 3) Mae grantiau ar gael i dalu ffioedd cwrs a/neu achrediad ar gyfer cyrsiau achrededig sy'n arwain at gymwysterau llawn neu rannol hyd at Lefel 3.
- 4) Nid oes cymorth ariannol ar gael ar gyfer cymwysterau sy'n gysylltiedig â thrwydded i ymarfer neu a fwriadwyd yn fwy cyffredinol i ddiwallu cyfrifoldebau statudol a/neu gyfreithiol cyflogwr (e.e. iechyd a diogelwch).
- 5) Mae grantiau ar gael i bobl a gyflogir ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a staff cymorth mewn ysgolion.
- 6) Bydd angen copi o'ch cofrestrriad ar gyfer y cwrs a phrawf eich bod wedi talu cost lawn ffioedd y cwrs eich hun cyn y gellir talu unrhyw grant, ond mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib y byddwn yn ystyried cynnig grant hyd yn oed os ydych chi'n derbyn arian o rywle arall. Bydd amgáu copi o'r dogfennau hyn

gyda'ch cais, a chwblhau'r ffurflen atodedig yn ein helpu i brosesu'ch cais yn gyflymach.

- 7) Gellir hawlio grantiau yn adolygol, ar yr amod eich bod wedi gwneud y 'taliad' o fewn yr un flwyddyn ariannol.
- 8) Rhaid i'r gweithgaredd dysgu y cynigir cymorthdal ar ei gyfer gyd-fynd ag un neu fwy o amcanion perthnasol Prosiect *WULF*;
  - a) dylai'r dysgu hyrwyddo cynwysoldeb ac ehangu cyfranogiad ymhlith gweithwyr anhraddodiadol ac anodd eu cyrraedd sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru,
  - b) dylai fynd i'r afael â materion sgiliau hanfodol a/neu,
  - c) adeiladu eu llythrennedd digidol er mwyn gwella cynnydd eu gyrfa a'u cyflogadwyedd.
- 9) Mae grantiau yn amodol ar gyllid parhaus ar gyfer Cronfa Ddysgu Undebau Cymru drwy Lywodraeth Cymru.
- 10) Mae'r dysgwr yn cytuno i anfon copi o ardstiad achredu/cymhwyster ar ôl cwblhau'r dysgu.
- 11) Mae'r dysgwr yn cytuno i rannu'r manylion sydd yn y ddogfen hon gyda Llywodraeth Cymru.

### **Beth ddylwn i ei ddarparu fel prawf o daliad?**

- Copi o'r dderbynneg gan ddarparwydd eich cwrs sy'n dangos eich bod wedi talu swm llawn y ffioedd, neu os ydych chi'n ymgymryd â chwrs ar-lein, copi o'r e-bost yn cadarnhau eich taliad; dylai hwn hefyd gynnwys teitl y cwrs a'r dyddiad cychwyn .
- Os ydych chi'n derbyn benthyciad myfyriwr ar gyfer eich cwrs, anfonwch gopi o'ch llythyr/cytundeb cyllid myfyriwr; dylai hwn gynnwys y dyddiad y cafodd y llythyr ei gyhoeddi, y flwyddyn academaidd y mae'r benthyciad ar ei chyfer a manylion eich cwrs.
- Os ydych chi'n talu am eich cwrs mewn rhandaliadau, bydd angen i chi ddarparu naill ai:
  1. copi o'r dderbynneg sy'n dangos eich bod wedi talu blaendal am y cwrs a chopi o gynllun rhandaliadau/cytundeb talu rhyngoch chi a darparwydd y cwrs neu;
  2. copïau o dderbynnegau yn dangos eich bod wedi talu am y cwrs fesul rhandaliadau

**Ffurflen Gais**  
**Grantiau Cymhwyster WULF UNSAIN Cymru**

**EICH MANYLION**

Eich enw:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn ystod y dydd (gwaith neu gartref):

Swydd:

Ticiwch i roi gwybod i ni am unrhyw gymwysterau blaenorol sydd gennych chi, h.y. o'r ysgol, coleg, a.y.b.

Nid oes angen darparu mwy o fanylion

Lefel Mynediad a Lefel 1  
(e.e. NVQ Lefel 1)

Lefel 2 (e.e. TGAU A-C)

Lefel 3 (e.e. lefel A/AS)

Lefel 4 ac uwch (e.e. gradd lefel gyntaf)

Dim

**Y CWRS RYDYCH CHI AM EI ASTUDIO**

Teitl y cwrs:

Enw'r coleg:

Hyd y cwrs:      blynyddoedd      misoedd

Ar gyfer cyrsiau o fwy na blwyddyn, pa flwyddyn yw hon (e.e. 2<sup>il</sup> o 3 blynedd):

Dyddiad cychwyn y Cwrs:      /      /

Ffioedd y cwrs am eleni: £

Ydych chi'n talu cost lawn ffioedd y cwrs eich hun?       Ydw       Nac ydw

Os nac ydych chi, pa swm o'ch ffioedd ydych chi'n ei dalu? £

Rwy'n cytuno i'r telerau ac amodau a amlinellir yn y cais hwn.

Llofnod \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

---

---

**Nawr anfonwch eich Ffurflen Gais wedi'i chwblhau a'i llofnodi, Ffurflen Dysgwr *WULF* a thystiolaeth ategol i:**

**UNSAIN Cymru**

**Cronfa Ddysgu Undebau Cymru**

**Tŷ UNSAIN**

**Heol y Tollidy**

**Caerdydd**

**CF10 1AP**

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar  
029 20729414 neu 01492 511656**

---

# Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (*WULF*)

## Ffurflen Dysgwr

Er mwyn i chi dderbyn cymorth ariannol gan brosiect *WULF*, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gasglu gwybodaeth gennyh chi. Gallwn eich sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu at ddibenion monitro a gwerthuso



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## HYSBYSIAD PERIFATRWYDD - CRONFA DDYSGU UNDEBAU CYMRU (*WULF*)

### Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau dan arweiniad Undebau drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (*WULF*). Mae'r arian yma'n caniatáu i ddysgwyr unigol dderbyn hyfforddiant sgiliau sydd o gymorth i gyflogadwyedd.

Er mwyn i chi dderbyn cymorth ariannol gan y prosiect a ariennir gan *WULF*, mae angen i Lywodraeth Cymru brosesu data personol amdanoch chi.

Ar ôl derbyn eich data personol gan yr Undeb, Llywodraeth Cymru fydd yn ei reoli.

### Beth ydyn ni'n ei wneud â'ch data personol?

Yn ein cylch gwaith fel y rheolwr, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir at y dibenion isod. Mae'r dibenion hyn yn angenrheidiol i'n galluogi i weithredu ein hawdurdod swyddogol ac am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd i gynorthwyo pobl i ddewis gyrfa a hyfforddi ar ei chyfer, ac yna canfod swydd a'i chadw.

#### 1. Er mwyn dilysu'r cyllid a ddarperir i'r Undeb.

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod Undebau yn diwallu amodau'r cyllido drwy ddarparu mynediad at hyfforddiant sgiliau, mae'r Undebau yn rhoi manylion i ni am unigolion sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau. Mae hyn yn caniatáu i ni nodi dysgwyr unigol pan fyddant yn cyrchu hyfforddiant sgiliau drwy Undeb penodol.

#### 2. Er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd *WULF*.

Er mwyn ein helpu i ddeall effeithiolrwydd cynllun *WULF* mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt â sefydliadau ymchwil cymeradwy sy'n gweithredu ar ein rhan, fel y gallant siarad â chi am eich profiadau. Ni chysylltir â phawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Os bydd ymchwilwyr yn cysylltu â chi, bydd pwrpas y cyfweiliad yn cael ei egluro i chi a rhoddir yr opsiwn i chi beidio â chael eich cyfweld.



## Am ba hyd ydyn ni'n cadw'ch data personol?

Mae cynllun cadw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw'ch manylion am 10 mlynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y byddwch chi'n derbyn cyllid ynddi. Pan nad oes angen i ni gadw'ch gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei gwaredu'n ddiogel.

## Eich hawliau parthed eich data personol

Mae gennych chi hawl i wneud y canlynol:

- cyrchu'r data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch;
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- gwneud cais i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sy'n gweithredu fel rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion ynghylch yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch chi a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych chi am weithredu eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â

E-bost: [WULF@gov.wales](mailto:WULF@gov.wales)

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Swyddog Diogelu Data,  
Llywodraeth Cymru,  
Parc Cathays,  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

E-bost: [DataProtectionOfficer@gov.wales](mailto:DataProtectionOfficer@gov.wales)

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,  
Wycliffe House,  
Water Lane,  
Wilmslow,  
Cheshire,  
SK9 5AD

Ffôn: 01625 545 745.

Ffacs: 01625 524 610.

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)



Llofnod: ----- Dyddiad: -----